

Sbwriel a bywyd gwyllt

I gael rhagor o wybodaeth ewch i: <https://www.rspca.org.uk/adviceandwelfare/litter>




Math y sbwriel: Cynwysyddion a chaniau
Effaith ar fywyd gwyllt: Gall anifeiliaid sy'n chwilio am fwyd gael eu dal mewn caniau neu eu hanafu gan ymylon miniog.

Math y sbwriel: Gwm cnoi 
Effaith ar fywyd gwyllt: Bydd anifeiliaid yn sefyll ar wm cnoi yn aml, a gall fynd yn sownd yn eu ffwr neu eu plu, sy'n ei gwneud yn anodd iddynt symud.



Math y sbwriel: Gwydr
Effaith ar fywyd gwyllt: Gall gwydr wedi torri achosi anafiadau difrifol trwy dorri'r croen a heintio a gall anifeiliaid gael eu dal mewn jariau, sy'n arwain at fygu neu newynu.

Math y sbwriel: Bagiau Plastig 
Effaith ar fywyd gwyllt: Gall anifeiliaid ddringo i mewn i fagiau plastig a mygu, neu eu bwyta a thagu.



Math y sbwriel: Dalwyr caniau plastig
Effaith ar fywyd gwyllt: Gall anifeiliaid fynd yn sownd mewn dalwyr caniau plastig, a chael clwyfau dwfn neu dagu.



Math y sbwriel: Balwnau
Effaith ar fywyd gwyllt: Bydd anifeiliaid yn ceisio bwyta balwnau a byddant yn aml yn tagu. Hefyd yn aml caiff anifeiliaid, ac adar yn benodol, eu dal mewn llinynnau balwnau a all eu rhwymo a pheri iddynt fygu.

Math y sbwriel: Llusernau papur
Effaith ar fywyd gwyllt: Gall llusernau glymu o gwmpas adar, gan ddifrodi eu hadenydd fel na allant hedfan, ac mewn rhai achosion mae'n eu mygu. Hefyd gall gwifrau dorri croen anifeiliaid, gan achosi gwaedu a heintiau.



Math y sbwriel: Bandiau lastig 
Effaith ar fywyd gwyllt: Gall y rhain lapio o gwmpas anifeiliaid bach a phigau adar. Os ydynt yn eu llyncu, gallant dagu arnynt.